

Atodiad 2 - Gofynion Lleiafswm (ni fydd prosiectau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn yn cael eu hystyried)

Rhaglen Ynni Carbon Isel	
Addas yn strategol (25%)	<p>Y sgôp fydd y prosiect yn ei gyfanrwydd - croesewir cynigion a all gyflawni yn erbyn nodau/amcanion y rhaglen.</p> <p>Rhaid i arianwyr prosiectau ymrwymo i gyflawni yn erbyn egwyddorion caffael a datganiad sefyllfa newid hinsawdd y Bwrdd.</p>
Effaith (40%)	<p>Rhaid i gynigion gyflawni isafswm o 10 swydd gros i bob £1m o gyllid Cynllun Twf y gofynnir amdano.</p> <p>Rhaid i gynigion gyflawni isafswm o £2m mewn cyllid cyfatebol cyfalaf i bob £1m o gyllid Cynllun Twf y gofynnir amdano.</p> <p>Ni fydd unrhyw geisiadau sy'n gofyn am lai na £2m o gyllid y Cynllun Twf yn cael eu hystyried.</p> <p><i>*Gellir ystyried cynigion nad ydynt yn bodloni'r holl feini prawf uchod ar sail eithriad os allant ddangos effaith ranbarthol neu leol sylweddol.</i></p>
Gallu i Gyflawni (35%)	<p>Bydd angen i'r holl ffynonellau fod wedi'u hadnabod fel isafswm.</p> <p>Rhaid i'r safle arfaethedig fod wedi'i glustnodi mewn Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi'i fabwysiadu neu sydd ar ddod, neu sy'n cyd-fynd â pholisi Cynllun Datblygu sefydledig.</p> <p>Os nad yw'r safle ym mherchnogaeth ariannwr y prosiect, yna rhaid i gytundebau fod yn eu lle gyda'r holl dirfeddianwyr.</p> <p>Rhaid i'r holl gynigion fod yn gydnaws â rheolau rheoli cymorthdaliadau.</p>